**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 30 Mehefin 2021 am 4.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd S.Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd P Howe | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd R Yeo | Y Cynghorydd J James |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd R Turner |
| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd M Adams | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd S Powell | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd S Belzak |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd J Harries | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd E George | Y Cynghorydd M Fidler Jones |
| Y Cynghorydd J Davies | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd A Chapman | Y Cynghorydd E Griffiths |
| Y Cynghorydd G Caple | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Professor Marcus Longley, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Paul Mears, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Anthony Gibson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig Ardal Pen-y-bont ar Ogwr
Kate Burton, Carfan Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS)

**22 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J Cullwick, A Davies-Jones, J Elliott, M Forey, H Fychan, K Jones, G Holmes, W Owen, S Rees-Owen, S Pickering, E Stephens, M Tegg a J Williams.

**23 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Caple - “Mae fy mab yn feddyg yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Caple – “Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Sheryl Evans – “Rwy'n gweithio i'r GIG”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman – “Rwy'n gyn-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R Yeo – “Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Davies - “Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf"

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Jones – “Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Norris - “Mae fy nith yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf"

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Morgans “Mae fy merch yn nyrs yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R Lewis - “Mae gen i aelod o’r teulu sy’n gweithio i’r Bwrdd Iechyd”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L M Adams - “Mae fy nai yn feddyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L M Adams - “Mae fy ngwraig yn derbyn pensiwn gan y GIG”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Fidler Jones - “Rwy'n weithiwr proffesiynol ym maes Materion Cyhoeddus sy'n gyfrifol am lobïo Bwrdd Iechyd Cwm Taf, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Howe - “Mae fy merch yn Ddoctor Seicoleg ac Ymchwil ac yn gweithio i'r GIG”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G R Davies - “Fe wnes i weithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf 3 blynedd yn ôl”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol K Morgan - “Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf"

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Trask - “Mae fy ngwraig yn gweithio i GIG Cymru”

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Sera Evans “Rwy'n Bennaeth Recriwtio'r DU ym Mhrifysgol De Cymru”

**24 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

Diolchodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yr Athro Marcus Longley i Gyngor RhCT am wahodd aelodau'r Bwrdd i annerch cyfarfod llawn o'r Cyngor. Talodd deyrnged i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Rhondda Cynon Taf am eu hymrwymiad a'u hymroddiad dros y 15 mis diwethaf yn ymdopi â phwysau gwaith.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, cyflwynodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Mr Paul Mears, drosolwg o faterion allweddol o dan y penawdau canlynol:

- **Diweddariad o ran Covid - Diweddaru'r Ymateb i Covid**

Diweddariad ar dri mater allweddol - profi, brechu ac adsefydlu yn dilyn Covid

- **Rhaglen Adferiad Dewisol**

Manylion mewn perthynas â'r Rhaglenni Adfer Gofal a Gwelliannau Brys i Ofal arfaethedig

- **Ffocws Gofal Sylfaenol**

Pwyslais ar nifer o feysydd allweddol, megis dechrau e-ymgynghori a'r cynnig am ganolfan arbennig i gyfeirio pobl at wasanaeth 111 y GIG.

- **Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol**

Diweddariad ar y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, gan sôn am barhau i weithio'n agos gyda'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP)

Bu cyflwyniad PowerPoint arall mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Cwm Taf Morgannwg, yn benodol ynglŷn â

sut mae'r gwasanaeth wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf ac ystyried yr heriau sydd o'u blaenau, gan gynnwys y gwaith partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol.

- **CAMHS Cwm Taf Morgannwg**

- **Buddsoddiad Newydd 2021/22**

Gan gynnwys diweddariad ar gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Gofal Canolraddol

- **Gwelliannau Allweddol - Ymyrraeth Gynnar**

Ffocws o'r newydd ar gyfleoedd gweithio ar y cyd a meithrin perthnasoedd ag asiantaethau partner

- **Gwelliannau Allweddol - Covid**

Cynnal y gwasanaeth drwy gydol pandemig Covid a chynnal gwasanaethau Argyfwng wyneb yn wyneb parhaus 7 diwrnod yr wythnos

- **Gwelliannau Allweddol - CAMHS**

Diweddariad ar Un Pwynt Mynediad, staffio ac ailgynllunio gwasanaethau

- **Gweledigaeth a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol**

Trosolwg o'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys yr angen am ymateb cyflym a hyblygrwydd parhaus dros y 12-24 mis nesaf a rhoi modelau a llwybrau newydd ar waith.

**Arweinydd y Cyngor**

Diolchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Morgan i aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am ddod i'r cyfarfod a rhannu'r newyddion diweddaraf am CAMHS a materion ehangach. Awgrymodd y byddai sesiynau diweddaru pellach yn cael eu trefnu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag adfer yn dilyn Covid a gwasanaethau gofal sylfaenol megis llawdriniaeth ddewisol. Fe wnaeth yr Arweinydd gydnabod bod CAMHS wedi bod dan bwysau o’r blaen a gyda disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol llawn amser, roedd yn rhagweld y byddai galw mawr am gymorth.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd swyddi gwag gyda nhw o hyd a phwysau ar staff a sut mae recriwtio i'r gwasanaeth?

**Y Cynghorydd P Jarman - Arweinydd yr Wrthblaid**

Tynnodd y Cynghorydd Jarman sylw at yr angen am wasanaeth CAMHS a gofynnodd faint o blant sydd ar restr aros CAMHS?

A oes trefniant tebyg yn RhCT i'r un ym Merthyr Tudful lle mae gwasanaethau offthalmig wedi'u hategu yn ddiweddar drwy drefniant rhwng Specsavers a'r Ymddiriedolaeth?

**Y Cynghorydd M Powell - Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT**

Gofynnodd y Cynghorydd Powell a oedd y cyfraddau uchel o Covid y cyfeiriwyd atyn nhw yn y cyflwyniad yn cynrychioli symudiad i fyny ar y gromlin?

Mae'r gofal a gynlluniwyd wedi cael chwistrelliad o £16 miliwn, a chwestiynodd a yw hynny'n ddigon?

Faint o aelodau staff sydd wedi dychwelyd i'r UE a gadael Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a sut mae'r Bwrdd yn llenwi'r swyddi gwag hynny?

A yw diffyg Uned Mân Anafiadau ym Mhontypridd / Taf-elái yn cael effaith ar Ysbyty Brenhinol Morgannwg?

Ffigurau ambiwlans - a allwch chi rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y data?

Darparwyd yr ymatebion canlynol fel a ganlyn:

- Swyddi gwag staff gyda CAMHS - Ar hyn o bryd does dim problemau o ran penodi staff gan fod gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd amrywiol, e.e. gweithwyr cymdeithasol, therapyddion a phroffesiynau craidd eraill, yn cael eu penodi'n ymarferwyr CAHMS. Mae perthnasoedd da gyda phartneriaid hefyd yn allweddol wrth benodi swyddi yn y gwasanaeth.
- Gwasanaethau CAHMS o fewn Ysgolion - Mae gwasanaethau wedi'u teilwra i feysydd unigol ac mae trafodaethau gydag ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn pennu'r pecynnau cymorth i bob ysgol unigol. Mae lefel y gefnogaeth yn cyd-fynd â'r hyn a gynigir gan yr awdurdod lleol.
- Rhestrau aros CAHMS - Mae 170 o bobl ifanc yn aros am gymorth gan CAMHS yn RhCT ac mae pobl ifainc yn cael eu gweld o fewn 3 wythnos. Mae'r galw wedi cynyddu ac mae disgwyl i hyn barhau am gryn amser.
- Offthalmig - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio'n agos gydag optometryddion y stryd fawr fel Specsavers i ddatblygu'r gwasanaethau yma a thrin cleifion y tu allan i ysbyty ac mewn meysydd arbenigol megis glawcoma.
- Cyfraddau Covid - 47 fesul 100,000 o gleifion yw'r gyfradd gyfredol yn RhCT, sy'n dangos bod cynnydd. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 64.8
- Cyllid gan Lywodraeth Cymru - Y neges yw y bydd rhagor o arian ar gyfer llawdriniaethau dewisol yn y dyfodol, ond mae'n ymwneud â mwy na chyllid. Nifer cyfyngedig o bobl sy'n gallu gweithio yn y maes yma.
- Penodi - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol De Cymru i benodi myfyrwyr sydd newydd gymhwyso ac mae'n edrych ar benodi tramor, ond mae hyn yn heriol oherwydd y cyfyngiadau teithio sydd ar waith ar hyn o bryd
- Uned Mân Anafiadau ym Mhontypridd – Wrthi'n edrych ar opsiynau amgen i'r uned damweiniau ac achosion brys ar hyn o bryd. Mae nifer fawr o faterion gofal iechyd sy'n cyflwyno'u hunain i'r adran damweiniau ac achosion brys yn fwy addas ar gyfer uned mân anafiadau.
- Data ar y Gwasanaeth Ambiwlans - Yn gysylltiedig â pha mor gyflym y mae trosglwyddiadau ambiwlans yn cael eu cyflawni ac yn gallu ymateb i alwadau brys. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth Ambiwlans

Cyflwynwyd cwestiynau pellach:

- Y Cynghorydd T Leyshon - Mae teuluoedd sydd angen asesiadau niwroddatblygiadol yn aros hyd at 26 wythnos. Mae Cyngor RhCT wedi cyflwyno llawer o fentrau i helpu i leihau’r rhestrau aros trwy ei wasanaethau cymdeithasol ei hun, e.e. Teuluoedd Cydnerth. Mae'r mentrau hyn yn helpu i leihau'r rhestrau aros a chuddio'r realiti;
- Y Cynghorydd M Weaver - Pryd fydd llawdriniaethau ar gyfer cleifion Orthopedig yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd;
- Y Cynghorydd S Belzak - Pam nad yw'r egwyddor o roi caniatâd llawn ar waith mewn perthynas â'r brechlynnau? Pam nad yw pobl yn cael gwybod am welliannau sy'n ddibynnol ar wrthgyrff? Mae'r sylweddau yma'n rhan o dreial clinigol am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bu dros 1,000 o farwolaethau hyd yn hyn, mwy o farwolaethau nag yn y 30 mlynedd ddiwethaf yn sgil yr holl frechlynnau, pam nad yw cleifion yn cael gwybod am hyn;
- Y Cynghorydd T Williams - mae gen i bryderon am yr amseroedd aros ar gyfer CAMHS;
- Y Cynghorydd J Brencher- A oes gyda ni'r un heriau staffio yn Ysbyty Tywysoges Cymru ag sydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac a ydyn ni'n mynd i'r afael â'r recriwtio yng ngwasanaethau'r Fron? Yng nghanol Llundain mae'r amser aros am Ganser y Fron yn llai na chwarter yr amser aros sydd yn yr ardal yma;
- Y Cynghorydd D Owen-Jones - A oes cynlluniau i ddatblygu uned benodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer menywod yn hytrach na theuluoedd yn gorfod teithio ymhellach fel y trafodwyd yn y Pwyllgor Craffu yn ddiweddar;
- Y Cynghorydd L M Adams - Mae CAMHS yn methu ein pobl ifainc, mae'r rhestrau aros yn tyfu ac mae plant gorfod mynd i'r ysbyty o ganlyniad i'w hiechyd meddwl, e.e. gydag achosion o hunan-niweidio.

Darparwyd ymatebion gan y Prif Weithredwr, Mr Paul Mears a Kate Burton o garfan CAMHS fel a ganlyn:

- Yn y gorffennol, roedd amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau CAMHS ond 3 wythnos yw'r amser aros cyfartalog erbyn hyn. Yr hiraf y mae rhaid i unrhyw berson ifanc aros yw 6 wythnos;
- Mae gwasanaethau niwroddatblygiadol yn cael eu rheoli gan adran Plant a Phobl Ifainc y Bwrdd Iechyd nid CAMHS ond mae CAMHS yn gweithio'n agos gyda nhw i wella'r gwasanaeth i leihau'r rhestrau aros;
- Mae gofal cleifion mewnol yn cael eu darparu i'r merched ifainc sydd angen y lefel uchaf o gefnogaeth yn Nhŷ Llidiard;
- Mae nifer sylweddol o gleifion a bydd yn cymryd blwyddyn neu fwy i gael trefn ar y rhestrau aros eto;
- Does dim gorfodaeth ar bobl i gael y brechlyn, ond mae modd i'r Bwrdd Iechyd ateb unrhyw ymholiadau ynghylch y brechlyn, ac mae wedi bod yn gwneud hynny trwy gydol y broses
- Mae yna faterion staffio tebyg ar draws yr holl safleoedd ar hyn o bryd;
- Rydyn ni'n gweld nifer fawr o atgyfeiriadau i'n gwasanaethau'r Fron, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych i wella hyn trwy greu gwasanaeth canolog i ddarparu mynediad llawer gwell a chyflym i'r gwasanaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr pe bai gan Aelodau unrhyw ymholiadau neu gwestiynau pellach; dylen nhw eu hanfon ymlaen at Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i gael eglurhad ac ymateb.

Diolchodd y Llywydd i aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am ddod i'r cyfarfod a darparu trosolwg o wasanaethau CAHMS a materion ehangach.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.59 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**